# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

Mae Adroddiad Blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2015**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o anghenraid yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Wendy Fitzgerald | Adran Etholiadol: | Penllergaer |

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Rwy'n rhoi'r newyddion diweddaraf i'm preswylwyr ar fy ngweithgareddau drwy ddosbarthu tri chylchlythyr anwleidyddol i bob cartref ym Mhenllergaer (4 tudalen o A4 ym mis Ebrill 2014, mis Medi 2014, mis Tachwedd 2014 a mis Mawrth 2015). Un o'r pryderon mwyaf sylweddol rwyf wedi parhau i fod yn rhan ohonynt oedd y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ac effaith bosib 850 neu fwy o gartrefi newydd yn ein cymuned. Felly, cynhaliais gyfarfod prysur arall ym mis Ionawr 2015 i roi'r newyddion diweddaraf i breswylwyr ar y broses CDLl ac es i lawer mwy wedi'u trefnu gan y Pwyllgor Gweithredu yr wyf yn aelod sylfaenol ohono.

Roeddwn hefyd wedi rhoi'r diweddaraf i breswylwyr, drwy gylchlythyr, ar gynnydd gweddnewid y meysydd chwarae ar Gomin y Gors.

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Isod dangosir y % presenoldeb sy'n seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Penodiadau | 3 | / | 3 | 100 | % |
| Pwyllgor Rheoli Datblygu Ardal 2 | 7 | / | 8 | 88 | % |
| Pwyllgor Arfarnu a Thâl y Prif Weithredwr | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Gweithgor y Cyfansoddiad | 2 | / | 2 | 100 | % |
| Cyngor | 17 | / | 17 | 100 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 6 | / | 7 | 86 | % |
| Pwyllgor y Rhaglen Graffu | 21 | / | 22 | 95 | % |
| **CYFFREDINOL** | **57** | **/** | **60** | **95** | **%** |

Cyfarfodydd Craffu:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithgor Gwasanaethau Adeiladau ac Eiddo Corfforaethol | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Panel Ymchwilio Craffu Cynhwysiad Addysg | 4 | / | 6 | 67 | % |
| Gweithgor Craffu Rheoli Perygl Llifogydd Lleol | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Panel Ymchwilio Craffu Strydlun | 2 | / | 3 | 67 | % |
| Gweithgor Craffu Cynaladwyedd | 1 | / | 1 | 100 | % |
| **CYFFREDINOL** | **9** | **/** | **12** | **75** | **%** |

## Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Roeddwn yn Gynghorydd Cymuned ac yn aelod o Fwrdd Ymddiriedolaeth Penllergaer ac rwyf dal i fod, yn ogystal â bod yn weithredol mewn sawl sefydliad arall yn y pentref, y mae dau ohonynt, Icers a Crafters, yn trefnu digwyddiadau codi arian rheolaidd dros elusennau.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Cynhaliais gyfarfod i breswylwyr Parc Penllergaer ym mis Hydref 2014 i drafod y cynlluniau ar gyfer Gorchmynion Rheoleiddio Traffig ar hyd y ffordd fynediad. Mae'r cynigion hyn eisoes wedi'u rhoi ar waith. Roeddwn yn rhagweithiol iawn wrth gael cyswllt i gerddwyr i'r ysgol o Barc Penderi. Bydd preswylwyr yn gyfarwydd â'r saga hon a'r costau uchel a ostyngwyd yn sylweddol yn y diwedd nes iddynt fod yn fforddiadwy ac agorwyd y cyswllt ar ddechrau 2015.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Rwyf wedi bod i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

04/08/2014 - Cynnwys y Cyhoedd
03/07/2014 - Rhyddid Gwybodaeth
03/07/2014 - Diogelu Data (gan gynnwys rôl fel Rheolwr Data)

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Ymgymerais â llawer o weithgareddau 'ymarferol' yn y ward megis casgliadau sbwriel a sesiynau glanhau rheolaidd a thocio coed.

Ymatebais yn gyflym i'r galwadau a'r e-byst niferus a dderbyniais yn ddyddiol ac es i ymweld â sawl preswylydd â phroblemau penodol na ellid mynd i'r afael â hwy oni bai am wyneb yn wyneb. Roedd fy llwyth achosion yn cynnwys nifer o faterion sensitif a phreifat iawn.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,300

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 13.10.15 |